## ATODLEN 7

## PARTNERIAETHAU

### RHAN 9

### CYMHWYSO ESEMPTIADAU, RHYDDHADAU, DARPARIAETHAU DCRHT A DARPARIAETHAU HYSBYSU

*Hysbysu am drosglwyddo buddiant partneriaeth*

44 (1) Nid yw trafodiad sy'n drafodiad trethadwy yn rhinwedd paragraff 18 neu 34 (trosglwyddo buddiant partneriaeth) yn drafodiad hysbysadwy onid yw'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad uwchlaw'r terfyn cyfradd sero.

(2) Mae'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trafodiad uwchlaw'r terfyn cyfradd sero os yw'n cynnwys—

(a) unrhyw swm y mae treth ar raddfa uwchlaw 0% i'w chodi mewn cysylltiad ag ef, neu

(b) unrhyw swm y byddai treth i'w chodi felly mewn cysylltiad ag ef oni bai am ryddhad.